Rhif: WG41335

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau statudol drafft – Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Rhan 6 o Bennod 1 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu ar gyfer cyfundrefn perfformiad a llywodraethiant newydd i brif gynghorau. Hoffem gael eich barn ar y canllawiau statudol drafft i brif gynghorau am y ffordd y dylent arfer eu swyddogaethau o ran perfformiad a llywodraethiant o dan y gyfundrefn newydd. |
| **Sut i ymateb** | Ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig yw hwn. Dylech ymateb drwy:<br>• Gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad; neu<br>• E-bostio neu bostio eich ymateb i'r manylion cyswllt isod.<br><br>Daw'r ymgynghoriad i ben ar 3 Chwefror 2021 |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) |
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:<br><br>Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol<br>Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru |
| **Hefyd ar gael yn Saesneg yn:** | Gwefan Ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

## Rhagair gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Mae atgyfnerthu a grymuso llywodraeth leol wrth wraidd y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Rwyf am helpu cynghorau i wella'n barhaus, i arloesi, cymryd risgiau mesuredig a chael trefniadau llywodraethu cadarn. Mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant a geir yn y Bil yn elfen hanfodol o hyn.

Mae'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethiant newydd yn diffinio prif gynghorau yn glir fel sefydliadau hunanwella sydd, drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiadau o berfformiad gan banel, yn herio'r status quo, yn gofyn cwestiynau am y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu ac yn ystyried arferion gorau yng Nghymru a thu hwnt yn barhaus. Fy uchelgais yw creu diwylliant lle mae pob rhan o gyngor bob amser yn anelu at wneud yn well ym mhopeth a wna, waeth pa mor dda y mae'n perfformio eisoes.

Wrth ystyried pa mor dda y mae cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad a nodir yn y Bil, naill ai fel rhan o hunanasesiad neu asesiad o berfformiad gan banel, dylai'r ffocws bob amser fod ar anelu at gyrraedd y brig. Mae'r graddau y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau cyfreithiol yn rhan graidd o ofynion perfformiad cyngor. Fodd bynnag, dylai cynghorau bob amser fod yn ymdrechu i wneud mwy – gan geisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl a wasanaethir ganddynt yn hytrach na dim ond bodloni'r gofynion sylfaenol. Cymerwch dai, er enghraifft. Gall pob un ohonom ymrwymo i'r uchelgais o ddarparu tai digonol i bawb, gydag awdurdodau yn ymyrryd ynghynt ac yn mynd y tu hwnt i fodloni'r gofynion deddfwriaethol sylfaenol yn unig.

Yn fy marn i, mae cydweithio, er enghraifft rhwng cyflogwyr ac undebau llafur, yn bwysig i wella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfrannu at wella llesiant gweithwyr. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi ein bwriad i ddeddfu er mwyn ymgorffori egwyddor partneriaeth gymdeithasol yn nhrefniadaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, yn fy marn i, mae rhoi arferion partneriaeth gymdeithasol ar waith yn rhan allweddol o drefniadau cyngor ar gyfer arfer ei swyddogaethau a defnyddio ei adnoddau'n effeithiol.

Bydd y prif gynghorau yn gallu defnyddio canfyddiadau hunanasesiadau ac asesiadau o berfformiad gan banel er mwyn nodi meysydd lle y gallai cymorth i wella wneud cyfraniad gwerthfawr iawn. Drwy CLILC, rwyf wedi ymrwymo i gyllido Rhaglen Gwella a Chymorth newydd. Credaf y bydd hyn yn galluogi cynghorau, dan arweiniad y sector, i sicrhau'r cydnerthedd ariannol sydd ei angen a thrawsnewid gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion a'n cymunedau yn y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr mewn llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill am weithio mor adeiladol i gydgynhyrchu'r canllawiau drafft hyn gyda Llywodraeth Cymru. Mae egwyddor cyd-ddatblygu yn allweddol i sicrhau bod y canllawiau gwerthfawr hyn i gynghorau yn hwyluso'r gwaith o roi'r darpariaethau ar waith ac, uwchlaw pob dim, yn sicrhau bod y dull gweithredu newydd yn gyfle ystyrlon i barhau i atgyfnerthu llywodraeth leol. Rwy'n croesawu eich barn ar y canllawiau drafft er mwyn iddynt gyfrannu'n effeithiol at wireddu'r uchelgais hon.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

## Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn

Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("y Bil") yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad.

Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ym mis Tachwedd 2019.

Mae a wnelo Rhan 6 o'r Bil â pherfformiad a llywodraethiant prif gynghorau ac mae Pennod 1 o'r rhan honno yn darparu ar gyfer system newydd i wella perfformiad a llywodraethiant, a fydd yn disodli dyletswydd bresennol cynghorau i wella a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae Rhan 6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru roi cymorth a, lle y bo angen, ymyrryd mewn prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol.

Bwriedir i'r dull newydd o weithredu a nodir yn y Bil ddarparu ar gyfer dull symlach a mwy hyblyg a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant. Y bwriad yw y bydd cynghorau yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut y dylai prosesau a gweithdrefnau mewnol newid er mwyn i brosesau cynllunio, cyflawni a phenderfynu mwy effeithiol allu cyflawni canlyniadau gwell.

Bydd y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant a geir yn Rhan 6 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adolygu i ba raddau y maent yn bodloni eu gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddau y maent:

a) yn arfer eu swyddogaethau yn effeithiol;
b) yn defnyddio eu hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
c) yn cael eu llywodraethu'n effeithiol.

Cynhelir y broses adolygu ffurfiol drwy hunanasesiad a chyhoeddir casgliadau'r broses hunanasesu bob blwyddyn drwy adroddiad hunanasesu. Bydd yr adroddiad hunanasesu yn cynnwys camau i'w cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

Mae'r darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethiant yn y Bil wedi'u llunio o fewn dyletswyddau datblygu cynaliadwy ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n rhoi'r cyd-destun lle y dylai cynghorau fod yn arfer eu swyddogaethau, yn defnyddio eu hadnoddau ac yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn effeithiol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan Ran 6 o Bennod 1 o'r Bil ar ôl iddo gychwyn. Golyga hyn fod yn rhaid i gynghorau ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, sicrhau bod ganddynt resymau clir a chyfiawnadwy dros wneud hynny.

Felly, rydym yn ceisio barn ar y canllawiau drafft i brif gynghorau ar arfer eu swyddogaethau o dan Ran 6 o Bennod 1 o'r Bil.

## Y sefyllfa bresennol

Rydym yn ymgynghori ar y canllawiau drafft i ategu'r darpariaethau yn y Bil nawr er mwyn sicrhau bod y canllawiau terfynol yn barod erbyn i'r pwerau newydd gael eu rhoi ar waith.

Wrth ddatblygu canllawiau drafft er mwyn helpu i roi'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil ar waith, rydym wedi gweithio gyda swyddogion llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r manylion am y ffordd y bydd y gyfundrefn newydd yn gweithio, ymhell cyn iddi ddod i rym. Rydym am sicrhau bod y canllawiau hyn yn rhywbeth gwerthfawr i lywodraeth leol a'u bod yn cynnig cyfle ystyrlon i barhau i atgyfnerthu cynghorau.

Neges glir sydd wedi'i chyfleu yn ystod y cyfnod hwn o gydgynhyrchu yw bod llywodraeth leol am gael yr hyblygrwydd i benderfynu ar ei dull gweithredu ei hun o ran cynnal hunanasesiad ac asesiad o berfformiad gan banel, a fydd wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol a strwythurau corfforaethol ac wedi'u llywio gan arferion gorau. Mewn ymateb, mae'r canllawiau drafft wedi cael eu datblygu a'u drafftio mewn ffordd sy'n ceisio helpu prif gynghorau i ddeall a chymhwyso'r dyletswyddau mewn ffordd sy'n briodol i'w hamgylchiadau eu hunain, gan fabwysiadu dull galluogi yn hytrach na bod yn rhy ragnodol. Y prif gynghorau fydd yn gyfrifol am ddefnyddio'r canllawiau i ddatblygu eu prosesau cadarn ac ystyrlon eu hunain.

Mae'r broses o ddatblygu'r canllawiau wedi bod yn un gydweithredol ac iterus. Fel man cychwyn, buom yn gweithio gyda grŵp bach o swyddogion llywodraeth leol sy'n cyflawni rôl yn ymwneud â pherfformiad a llywodraethiant yn eu cynghorau er mwyn cydgynhyrchu drafftiau cychwynnol o elfennau'r canllawiau. Wedyn, cafodd drafftiau eu rhannu a'u profi yn rheolaidd gydag amrywiaeth o bartneriaid eraill er mwyn llywio syniadaeth a'u mireinio ymhellach. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â gwahanol adrannau o fewn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y canllawiau wedi'u cysylltu â meysydd polisi eraill a'u bod yn cyd-fynd â nhw.

Cafwyd gwybodaeth a dealltwriaeth werthfawr o'r cyfnod ymgysylltu hwn ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhai a gymerodd rhan ac a gefnogodd y gwaith hwn. Rhai negeseuon allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd bod angen:-

- Bod yn glir ynglŷn â diben y darpariaethau newydd ar gyfer perfformiad a llywodraethiant a'r ffordd y maent yn ymwneud â'r dirwedd ehangach, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â threfniadau perfformiad statudol eraill a gwaith archwilwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr;

- Grymuso cynghorau i ddatblygu eu dull eu hunain o adolygu perfformiad yn barhaus, o fewn paramedrau'r ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau cysondeb â strwythurau a phrosesau llywodraethu corfforaethol sydd eisoes yn bodoli.

- Nodi'n glir y dylai'r darpariaethau ategu proses ystyrlon i gyfrannu at atgyfnerthu llywodraeth leol ac na ddylent arwain at ymarfer cydymffurfio;

- Helpu llywodraeth leol i feithrin gallu ac arbenigedd o ran cynnal hunanasesiadau ac ymateb yn ystyrlon i'r canfyddiadau.

Mae'r negeseuon hyn wedi llywio'r canllawiau drafft.

## Y canllawiau arfaethedig

Mae'r canllawiau drafft yn ymdrin â'r dyletswyddau canlynol a nodir yn Rhan 6 o'r Bil:-

- **Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus**
- **Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad**
- **Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad**
- **Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel**
- **Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel**

Ceir darpariaethau eraill yn Rhan 6 o'r Bil, megis pwerau i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiadau arbennig o gyngor; pwerau i Weinidogion Cymru roi cefnogaeth a chymorth i gyngor er mwyn gwella ei berfformiad; pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn cyngor nad yw'n bodloni'r gofynion perfformiad neu y mae'n bosibl nad yw'n eu bodloni. Disgrifir yr elfennau hyn o'r Bil yn y canllawiau drafft, gydag unrhyw ddyletswyddau a osodir ar gynghorau yn y darpariaethau hyn yn cael eu nodi'n glir.

Diben y canllawiau yw rhoi cyngor i brif gynghorau ar sut i gyflawni eu dyletswyddau, fel y'u nodir yn Rhan 6 o'r Bil, yn llwyddiannus a'u helpu i wneud hynny.

Nodir y canllawiau mewn penodau fel a ganlyn:-

**Pennod 1 –** sy'n disgrifio'r cyd-destun polisi lle mae'r dyletswyddau o ran perfformiad a llywodraethiant wedi'u gosod a diben y dyletswyddau**.**

**Pennod 2** – sy'n esbonio'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus a'r ddyletswydd i ymgynghori â phobl leol ac eraill ar berfformiad; ac mae'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad, yn benodol drwy gynnal hunanasesiad.

**Pennod 3** – sy'n rhoi canllawiau ar y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

**Pennod 4 –** sy'n amlinellu pŵer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig; dyletswydd cyngor i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylai eu cymryd; a dyletswydd Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion ar gyfer camau y dylent eu cymryd;

**Pennod 5** – sy'n disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd os bydd Gweinidogion o'r farn ei bod yn debygol nad yw'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad neu ei bod yn bosibl nad yw'n eu bodloni.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym yn gwahodd sylwadau ar y canllawiau statudol drafft ac wedi nodi wyth cwestiwn ymgynghori isod. Os hoffech ymateb, cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein neu ysgrifennwch neu anfonwch neges e-bost i'r cyfeiriadau ar dudalen 2 o'r ddogfen hon.

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch hynny drwy roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen ymateb neu ei nodi'n glir yn eich ymateb ysgrifenedig.

| | |
|---|---|
| C1 | A yw'r canllawiau drafft yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan brif gynghorau fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 6 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn ffordd y gall prif gynghorau ei deall?<br>Os nad ydynt, pam? |
| C2 | A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus yn ddigon clir?<br>Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid? |
| C3 | A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn esbonio sut y gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau?<br>Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid? |
| C4 | A yw Pennod 3 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion sylfaenol i brif gynghorau drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo yn glir, yn ogystal â rhoi digon o hyblygrwydd i bob cyngor benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun?<br>Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid? |
| C5 | Mae Pennod 4 yn nodi pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig a dyletswyddau prif gynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion.<br><br>Mae Pennod 5 yn disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd. |

| | |
|---|---|
| | A yw Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau yn ddigonol?<br><br>Os nad ydynt, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid? |
| C6 | Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? |
| 7 | Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r canllawiau gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. |
| C8 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y canllawiau drafft. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad i fynegi eich barn. |

## Y camau nesaf

Disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021. Bwriedir i'r dyletswyddau y mae'r canllawiau yn ymwneud â nhw fod yn gymwys o 1 Ebrill 2021 ymlaen, ac eithrio'r dyletswyddau y daw asesiad o berfformiad gan banel i rym mewn perthynas â nhw, yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ym mis Mai 2022.

Yn ymarferol, golyga hyn y caiff yr adroddiadau hunanasesu cyntaf eu paratoi ar flwyddyn ariannol 2021-22, a'u cyhoeddi'n gynnar ym mlwyddyn ariannol 2022-23.

Y bwriad yw, yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol hwn, y caiff y canllawiau statudol terfynol eu rhoi i brif gynghorau o dan Ran 6 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ar ôl iddo gychwyn.

Bydd prif gynghorau yn parhau i gyflwyno adroddiadau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a disgwylir i adroddiadau gael eu cyhoeddi yn unol ag adran 15 o'r Mesur erbyn mis Hydref 2021.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:
Sefydliad (lle bo'n berthnasol):
E-bost / rhif ffôn:
Eich cyfeiriad:

**C1:** A yw'r canllawiau arfaethedig yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir gan brif gynghorau fel y'i nodir yn narpariaethau Rhan 6 o'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn ffordd y gall prif gynghorau ei deall?

Os nad ydynt, pam?

**C2:** A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion perfformiad a'r ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus yn ddigon clir?

Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

**C3:** A yw Pennod 2 o'r canllawiau yn esbonio sut y gallai cyngor fodloni'r gofyniad i gynnal hunanasesiad er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau?

Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

**C4:** A yw Pennod 3 o'r canllawiau yn nodi'r gofynion sylfaenol i brif gynghorau drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo yn glir, yn ogystal â rhoi digon o hyblygrwydd i bob cyngor benderfynu ar ei ddull gweithredu ei hun?

Os nad ydyw, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

**C5:** Mae Pennod 4 yn nodi pwerau Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig a dyletswyddau prif gynghorau a Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw argymhellion.

Mae Pennod 5 yn disgrifio pwerau a dyletswyddau Gweinidogion Cymru a chynghorau mewn perthynas â chefnogi perfformiad a helpu i'w wella; a phwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd.

A yw Penodau 4 a 5 yn disgrifio ac yn esbonio'r pwerau yn ddigonol?

Os nad ydynt, beth y byddech yn ei ychwanegu neu'n ei newid?

**C6:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

| |
|---|
| |

**C7:** Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r canllawiau gael eu llunio neu eu newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

| |
|---|
| |

**C8:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y canllawiau drafft. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, nodwch nhw yma.

| |
|---|
| |